**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am Yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Iau 5 Medi 2019**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Huw Davies (trwy Skype), Gareth Wynn Davies, John Davies, Rachael Madeley Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** David Thomas a Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitem ymgynghoriad
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

**I gael briff am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Ffermio Cynaliadwy a'n Tir**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i David Thomas, Is-adran Amaethyddiaeth a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a roddodd gyflwyniad i'r Bwrdd ar yr uchod.

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd: -

5 Gorffennaf 2019 - Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â chynrychiolwyr o Gymdeithas yr Arwerthwyr Da Byw (LAA) a Llywodraeth Cymru. Trafodwyd amryw o bynciau, gan gynnwys cynrychiolaeth Bwrdd HCC a'r manteision, a oedd yn amlwg i bawb, o weithio'n agosach. Cynhaliwyd cyfarfod pellach ar 21 Awst 2019 rhwng Swyddogion Gweithredol HCC a'r LAA pan drafodwyd nifer o bynciau'n ymwneud â'r diwydiant.

22 a 23 Gorffennaf 2019 – Bu'r Cadeirydd yn Sioe Frenhinol Cymru (Gweler Eitem 7e).

13 a 14 Awst 2019 – Bu'r Cadeirydd yn Sioe Môn lle cafodd gyfle i drafod Brexit a materion eraill y ymwneud â ffermio gyda'r Undebau Amaethyddol.

19 Awst 2019 – Cyfarfu'r Cadeirydd â Chris Kebell o Uwch-gomisiwn Seland Newydd, i drafod Brexit ac ymyriadau marchnad.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Alexander, Llywodraeth Cymru.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Gorffennaf 2019 (HCC 897)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Gorffennaf 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Polisi Dosbarthu a Thrafod Gwybodaeth HCC*

Cafodd SharePoint (system i reoli mewnrwyd a chynnwys) ei gosod ac roedd yn galluogi'r Bwrdd i gyrchu dogfennau fel papurau'r Bwrdd. Byddai staff yn cael hyfforddiant a châi'r system ei datblygu yn ystod y misoedd nesaf.

**Gweithredu: Y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol**

6a. **Y diweddaraf am Brexit - I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn ymadael â'r UE**

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr uchod.

Byddai'r risg i'r diwydiant defaid yn enfawr oni cheid cytundeb ar 31 Hydref 2019. Pe ceid oedi pellach tan 31 Ionawr 2020, byddai canran fawr o'r ŵyn wedi cael eu gwerthu.

Roedd Llywodraeth Cymru yn dal i weithio ar gynllunio wrth gefn, gan weithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig ac adrannau Whitehall. Cafodd argymhellion eu cyflwyno i'r Trysorlys ynghylch cynllun wrth gefn posibl ar gyfer defaid.

Cafodd cyhoeddiad diweddar y Gweinidog am gyflwyno Cynllun Cymorth i'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) 2019 ei groesawu gan y Bwrdd. Byddai'r Cynllun yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch ariannol i ffermwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Parhaodd Llywodraeth Cymru i gynnal cyfarfodydd Cynllunio Wrth Gefn ar gyfer Rhanddeiliaid a chafodd y Grŵp Rhwydwaith Gwybodaeth Leol a Chadernid Amaethyddol ei ffurfio yn barod ar gyfer Brexit heb gytundeb. Rhoddid ystyriaeth i ymyriadau a chymorth i'r diwydiant o ran lles, cymorth argyfwng, cymunedau amaethyddol. Hefyd, roedd arian i sefydliadau elusennol a ffurfio Grŵp Partneriaeth Elusennol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

6b. **I dderbyn papur ar Archwiliad o barodrwydd HCC ar gyfer ymadael â'r UE (HCC 898)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

Roedd y Bwrdd yn fodlon fod HCC yn cyflawni ei rwymedigaethau o ran bod yn barod ar gyfer Brexit a chyfathrebu ynglŷn â hynny.

7. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 899)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Cyfathrebu*

Ar hyn o bryd roedd yr Adran Gyfathrebu yn cynllunio ar gyfer Cynhadledd Flynyddol HCC, yn ogystal â rhoi sylw i faterion cyfamserol yn y wasg a'r cyfryngau – yn enwedig Newid yn yr Hinsawdd a'r gostyngiad ym mhrisiau cig eidion.

*Datblygu'r Farchnad*

Dangosodd Rheolwr Datblygu'r Farchnad gyhoeddiadau a ddatblygwyd gan Adran Datblygu'r Farchnad yn ymwneud â: -

- Masnach
- Gwybodaeth i ddefnyddwyr (ryseitiau, darnau gwahanol o gig a negesau allweddol am gig a'r amgylchedd naturiol) a
- llyfryn "Ar y Fferm" sy'n cynnig gweithgareddau addysgol i fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 1

*Y Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP)*

Parhaodd y gweithgareddau ynghylch cyflawni tri phrosiect, sef Stoc+ (Cynllunio Iechyd Diadelloedd a Buchesi), Geneteg Diadelloedd ac Ansawdd Bwyta Cig.

Penodwyd y canlynol i lenwi swyddi gwag y prosiect: -

Heather McCalman, Cydgysylltydd Darparu Rhaglenni
Sean Jefferies ac Elizabeth Swancott, Swyddogion Prosiect.

Roedd swydd Swyddog Ymchwil a Datblygu wedi cael ei llenwi gan Nia Davies a ddechreuodd yn y swydd ar 21 Hydref 2019.

Cyflwynwyd cyhoeddiadau Datblygu'r Diwydiant a gafodd eu lansio yn Sioe Frenhinol Cymru: -

- Y Llyfr Cig Bach:
- Prosiect Meincnodi Cig Coch – yn seiliedig ar Ddata

*Ailwladoli Ardoll Cig Coch*

Cafwyd cytundeb ynghylch egwyddorion a methodoleg y broses o ailwladoli'r Ardoll yn y dyfodol. Y camau nesaf fyddai defnyddio gwahanol ffynonellau o ddata ar gyfer y fethodoleg a gytunwyd. Byddai'r Bwrdd yn cael gwybod am y cynnydd.

Roedd yn amheus a fyddai'r Mesur Amaethyddiaeth yn dod yn gyfraith, o ystyried statws Brexit ar hyn o bryd Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn annhebygol y byddai'r cynllun ailwladoli yn cael ei wireddu erbyn 1 Ebrill 2020 a'i bod yn debygol y byddai'r trefniad Cronfa Glustnod (RFF) rhwng y cyrff Ardoll yn parhau am flwyddyn arall.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 900)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Roedd yn destun pryder i nodi nad oedd prisiau cig eidion wedi gwella ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd. Ar hyn o bryd roedd prisiau'n 11% yn is na'r llynedd. Roedd HCC yn dal i ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi gyfan a byddai'n trefnu cyfarfod arall cyn bo hir.

Cafwyd trafodaeth eang pan amlinellwyd y gwahanol resymau am y trafferthion presennol. Cytunwyd y dylid gwneud crynodeb ac anfon hwnnw at y Bwrdd.

c. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2019 (HCC 901)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yr Incwm a Gwariant chwarterol hyd at Fehefin 2019, a gafodd ei ebostio i'r Bwrdd ar 30 Gorffennaf 2019, a rhoddodd grynodeb o'r cynnwys.

Nodwyd bod ystadegau'r gyllideb wedi cael eu cymhwyso o'r rhai yn y Cynllun Gweithredol gwreiddiol ar gyfer 2019 / 2020 er mwyn ystyried ailbroffilio'r Rhaglen Datblygu Cig Coch ac echdyniad gweithgareddau'r Gronfa Glustnod yn unol ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru.

Cafodd y gyllideb ddiwygiedig ei chymeradwyo gan y Bwrdd.

d. Digwyddiadau i ddod (HCC 902)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

e. I gael manylion am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 22 – 25 Gorffennaf 2019

Cafodd presenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru ei gymeradwyo gan y Bwrdd a nodwyd adborth y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu (gweler isod)

Cafodd y naill stondin a'r llall (Corfforaethol / Defnyddwyr a Datblygu'r Diwydiant) eu cynllunio fel bod digon o le i groesawu ymwelwyr ac arddangos negesau allweddol yn glir.

Daeth nifer dda i frecwast HCC a rhoddwyd sylw yn y wasg a'r cyfryngau i araith y Cadeirydd ynghylch yr effaith y câi Brexit Heb Gytundeb ym mis Hydref ar y sector amaethyddol yn gyffredinol ac yn enwedig ar allforio.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd allweddol - ar y stondinau ac mewn mannau eraill – gan gynnwys cyfweliadau i'r wasg a'r cyfryngau am Brexit; ymgysylltu ar lefel wleidyddol, cyflwyniad i Uwch Gomisiynydd Seland Newydd chyfarfod HCC i'r diwydiant ynghylch y sefyllfa anodd yn y farchnad gig eidion. Hefyd, bu'r Prif Weithredwr yn cymryd rhan mewn sesiwn Holi ac Ateb a drefnwyd gan y Pwyllgor Materion Cymreig fel rhan o ymchwiliad i Brexit, masnach a thollau: y goblygiadau i Gymru.

Croesawyd Tywysog Cymru i brif stondin HCC. Roedd yn gyfle i'r Tywysog ymgysylltu â grŵp o ffermwyr o Gymru ynghylch arferion ffermio cynaliadwy, yr amgylchedd a'r sector cig eidion a defaid.

f. I dderbyn cyflwyniad am werthusiad o ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2018 / 2019

Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r uchod gan Reolwr Datblygu'r Diwydiant

Roedd y gwaith o gynllunio'r Ymgyrch Cig Eidion PGI ar fin cael ei gwblhau. Rhoddid cyflwyniad am hyn yn y cyfarfod nesaf.

8. **Pwyllgorau HCC**

***Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg***

a. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 12 Mehefin 2019 (HCC 903)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu***

b. I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Medi 2015 – gweler hefyd Eitem 7e / Sioe Frenhinol Cymru

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

***Y Pwyllgor Cynghori  ar Farchnata***

c. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 10 Mehefin 2019 (HCC 904)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

9. **Unrhyw fater arall**

10. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod: -**

Telegynhadledd i ddiweddaru'r Bwrdd – Ddydd Iau 3 Hydref 2019 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Ddydd Mercher 6 Tachwedd 2019 am 10.30am

**Llofnodwyd…………………………….**
{0